technocamps

Inspiring | Creative | Fun
Ysbrydoledig | Creadigol | Hwyl

App Inventor
Awgrymiadau Defnyddiol

Mae App Inventor yn offer sy'n galluogi defnyddwyr i ddatblygu eu apps Android eu hunain. Gellir lawrlwytho'r apps hyn yn syth i ddyfeisiau Android neu hyd yn oed eu llwytho i fyny i'r Play Store lle gellir eu prynu neu'u lawrlwytho am ddim gan ddefnyddwyr ar draws y byd! Rhennir rhyngwyneb App Inventor i 2 brif adran, y design a'r blocks editor. Mae gan y designer amrywiaeth o components i'w defnyddio y gellir eu haddasu yn ôl dewis trwy ddefnyddio priodweddau gwahanol pob component. Ar y Blocks editor, gellir cysylltu darnau o god sy'n edrych fel darnau jig-so a'u datblygu ac maent yn cynnal amrywiaeth o dasgau gwahanol yn ddibynnol ar y modd y cânt eu gweithredu.

Ar y dudalen nesaf, ceir y blociau built in sydd ar gael i chi eu defnyddio ar unrhyw adeg yn eich app eich hun. Pan fyddwch yn clicio ar un o'r grwpiau hyn o flociau, bydd dewislen o ddarnau jig-so yn ymddangos i'r dde ohono. Y darnau jig-so ar wahân yw'r cod a ellir ei lusgo i'r Blocks Editor. Mae rhai angen rhagor o flociau penodol yn atodedig atynt, ac eraill weithiau'n edrych fel y gall blociau gael eu rhoi ynddynt. Os oes gennych floc o god y mae angen ychwanegu rhagor o god ato, ni fydd y rhaglen yn rhedeg yn iawn gan nad yw wedi'i chwblhau.

i.t.wales www.itwales.com
Swansea University Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth University
Prifysgol Bangor University
University of South Wales Prifysgol De Cymru
ESF
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

Blociau o Blocks Editor App Inventor

Blociau	Disgrifiad
Definition	Defnyddir y blociau hyn i ddiffinio gwerthoedd y gellir eu defnyddio'n ddiweddarach yn eich app. Mae'r rhain yn cynnwys er enghraifft rhestrau, rhifau cyson, enwau etc.
Text	Defnyddir y blociau hyn i drin llinynnau neu greu a diwygio testun
Lists	Defnyddir y blociau hyn i drin y rhestr, neu greu a diwygio rhestrau.
Math	Defnyddir y blociau hyn ar gyfer yr holl gyfrifiadau mathemategol. Cânt hefyd eu defnyddio i ddiffinio gwerthoedd rhifol ac mae angen i'r gweithredwyr gynnal cyfrifiadau.
Logic	Defnyddir y blociau hyn i greu profion rhesymeg, megis gwerthoedd true neu false a rhesymeg AND/OR.
Control	Defnyddir y blociau hyn ar gyfer rheoli llif, megis datganiadau amodol a chylchoedd.
Colors	Defnyddir y blociau hyn i reoli lliwiau components amrywiol.

Peidiwch ag anghofio anfon enghreifftiau o'ch prosiectau atom! Gallem hyd yn oed eu dangos ar ein gwefan neu ar ein tudalen Facebook!

technocamps

www.technocamps.com

@Technocamps

Find us on Facebook